**YSGOL BRO HYDDGEN**
Tel: (01654 70 4200)
Ffacs: (01654 70 2994)
E-bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk
Gwefan: www.brohyddgen.cymru

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A

10 Mehefin 2020

Annwyl Rieni / Ofalwyr

# Dychwelyd i'r Ysgol

Fel y gwyddoch, mae'r Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi y bydd ysgolion Cymru yn ail agor eu drysau yn rhannol **ddydd Llun 29 Mehefin**. Deallwn y bydd y penderfyniad o yrru eich plentyn yn ôl i'r ysgol neu beidio, yn benderfyniad anodd i'w wneud. Hyderaf y bydd y wybodaeth a geir yn y llythyr hwn yn eich galluogi i wneud penderfyniad gwybodus.

Rydym ar hyn o bryd yn llunio cynlluniau manwl ar gyfer y 4 wythnos y byddwn ar agor. Hoffwn eich sicrhau bod lles a diogelwch pob plentyn ac aelod o staff yn flaenllaw ym mhob cam a gymerir. Noder hefyd y bydd y ddarpariaeth ar lein yn parhau.

Dyma amlinelliad o'r trefniadau rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith:

**Cyrraedd yr Ysgol**

Mae oriau agor a chau'r ysgol yn aros yr un peth. Dylai plant y Cyfnod Sylfaen gyrraedd drwy'r giât arferol ac i mewn drwy'r drws mawr y tu allan i ystafel ddosbarth Bedwen. Dylai plant Bl 3 - 6 ddod i mewn drwy'r brif fynedfa. Bydd llinellau wedi'u gosod ar y llawr wrth y mynedfeydd, fel o fewn adeilad yr ysgol sy'n nodi pellter o 2 fetr – gofynir i ddisgyblion i ddefnyddio rhain i sicrhau'u bod yn sefyll mewn rhes dwy fetr oddi wrth ei gilydd wrth aros i gael mynediad.

**Prawf Tymheredd**

Bydd tymheredd pob plentyn yn cael ei gymryd wrth gyrraedd yr ysgol. Os bydd tymheredd plentyn dros 37.5°C, bydd rhaid ailgymryd y tymheredd ac os bydd yr ail ddarlleniad yn parhau yn uchel ni fydd posib i'ch plentyn ddod i'r ysgol - yn unol â chanllawiau rheoli Covid-19 y Llywodraeth. Bydd gofyn i'r plentyn ac unrhyw aelodau o'r teulu hunanynysu am 14 diwrnod.

**Ystafell Ynysu**

Bydd ystafell ynysu wedi ei lleoli yn ardal y Cyfnod Sylfaen ac yn ardal Bl 3 - 6 ar gyfer disgyblion neu aelodau o staff sydd yn teimlo'n sâl.

**YSGOL BRO HYDDGEN**
Tel: (01654 70 4200)
Ffacs: (01654 70 2994)
E-bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk
Gwefan: www.brohyddgen.cymru

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A

**Rheol 2 Fetr, y Dosbarthiadau a'r Dysgu**

Byddwn yn anelu i sicrhau bod mynychu'r ysgol yn brofiad buddiol i'ch plentyn/plant. Byddwn yn dilyn rheolau ymbellhau cymdeithasol. Rydym felly wedi rhannu pob dosbarth yn 3 Grŵp. Nodir isod ym mha grŵp mae eich plentyn chi ac ar ba ddyddiau bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer y grŵp hwn.

**Grŵp: cewch lythyr yn y post gyda'r manylion hyn**

**Dyddiadau:**

**Gwisg Ysgol**

Nid oes rheidrwydd i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol yn ystod y cfynod hwn.

**Cinio a Snac**

**NI** fydd y ffreutur yn gweini cinio ysgol **NA** bocs bwyd. Bydd rhaid i bob plentyn ddod â'i focs bwyd a'i snac ei hun - digon i bara'r diwrnod cyfan. Caiff y bocs bwyd eu cadw yn yr ystafell ddosbarth a bydd pawb yn bwyta eu pecyn bwyd yn eu hystafell ddosbarth neu y tu allan (os bydd y tywydd yn caniatáu). Ni fydd y ffynhonnau dŵr ar gael, felly bydd gofyn i bob plentyn ddod â'u potel ddŵr ei hun. Mae'r Awdurod Addysg yn datgan yn glir bod rhaid i bob plentyn fynd ag unrhyw fwyd sydd heb ei fwyta/deunydd pacio adref gydag ef/hi.

**Amser Cinio ac Egwyl**

Ni fydd pawb yn cael amser egwyl a chinio ar yr un pryd. Bydd disgyblion o ddosbarthiadau gwahanol yn cael eu cadw ar wahân drwy gydol y dydd. Bydd system teithio un ffordd mewn lle ar y coridorau gyda marciau 2m yn amlwg lle y bydd rhaid i'r disgyblion a'r staff gadw atynt. Noder, os gwelwch yn dda, os na fydd plentyn yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn, bydd yn rhaid iddo/iddi barhau i dderbyn addysg o'r cartref.

**Toiledau**

Am resymau glendid, un plentyn fydd yn mynd i'r toiled ar y tro o bob dosbarth. Mae'n hanfodol bod pob plentyn yn golchi'i d/ddwylo ar ôl bod yn y toiled.

**Glanhau**

Bydd ystafelloedd dosbarth, y toliedau ac ardaloedd cyffredin yn cael eu sychu'n lân yn rheolaidd, a bydd yr ystafelloedd dosabrth yn cael eu glanhau'n drylwyr bob nos. Bydd diheintydd dwylo ar gael ymhob dosbarth ac wrth pob mynedfa.

**YSGOL BRO HYDDGEN**
Tel: (01654 70 4200)
Ffacs: (01654 70 2994)
E-bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk
Gwefan: www.brohyddgen.cymru

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A

**Offer PPE**

Bydd yr ysgol yn darparu offer diogelu personol i staff. Bydd mwgwd/masg ar gael i bob plentyn ei wisgo os dymunwch; ni fydd rheidrwydd yn hyn o beth.

**Hebrwng a Chasglu Plant**

Dim ond un rhiant neu ofalwr fydd yn cael hebrwng plentyn i'r ysgol a chasglu plentyn o'r ysgol.

**Dim Rhannu Offer**

Bydd yr ysgol yn darparu offer ysgrifennu i bob plentyn ac ni fyddant yn cael rhannu'r adnoddau hyn gyda phlant eraill na'r staff. Bydd gan bob plentyn ei ddesg ei hun am y diwrnod.

**Arwyddion**

Bydd arwyddion clir o amgylch yr ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd golchi dwylo, hylendid a chadw pellter cymdeithasol.

**Yr Hwb**

Bydd Hwb Gofal Plant ar gyfer plant gweithwyr allweddol yn parhau i gynnig gofal i blant Gweithwyr Allweddol rhwng 8.30am - 4.30pm.

**Clwb Brecwast a Chlwb ar ôl Ysgol**

Ni fydd yr ysgol yn darapru Clwb Brecwast ac nid oes trefniadau wedi eu gwneud ar gyfer ailagor y Clwb Ar ôl Ysgol

**Ymwelwyr i'r safle**

Ni ddylid dod i safle'r ysgol i gasglu'u plentyn yn ystod y dydd heb ffonio/ebostio ymlaen llaw a gwenud trefniadau penodol. Ni fydd y dderbynfa ar agor fel arfer.

Er mwyn cadarnhau'r trefniadau hyn a sicrhau lefelau staffio cywir, byddwn yn falch pe gallech gwblhau'r holiadur byr iawn ar wefan yr ysgol yn nodi naill ffordd neu'r llall: a fyddwch yn anfon eich plentyn/eich plant i'r ysgol ar y dyddiau a glustnodwyd ar ei gyfer/ eu cyfer, neu beidio. Caiff linc i'r holiadur ei anfon allan drwy gyfrwng neges destun. Gofynnwn yn garedig i chi wneud hyn erbyn **dydd Mercher 17 Mehefin ar gyfer y pythefnos gyntaf ac eto erbyn dydd Mercher 8 Gorffennaf ar gyfer y pythefnos olaf**. Bydd derbyn y wybodaeth yma gan bawb mor fuan â phosib yn caniatau i ni

**YSGOL BRO HYDDGEN**
Tel: (01654 70 4200)
Ffacs: (01654 70 2994)
E-bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk
Gwefan: www.brohyddgen.cymru

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A

fel ysgol gadarnhau'r trefniadau terfynol gyda chi mewn da bryd er mwyn i bawb fod yn gwbl hyderus o'r hyn sydd o'n blaenau cyn i ni ail agor ein drysau'n llawn.

Hyderaf y gallwn gydweithio yn hyn o beth er mwyn symud ymlaen o'r cyfnod heriol hwn yn llwyddiannus.

Yn gywir

Haf ap Robert
Pennaeth Cynorthwyol